20-May-07

**Ffurflen gais ar gyfer pobl sydd angen prynu pethau ar gyfer baban**

# Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

## o'r Gronfa Gymdeithasol

canolfanbydgwaith

## Allwch chi gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn?

### Gallech gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os

- **ydych chi neu'ch partner yn cael**
  - Cymhorthdal Incwm, neu
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, neu
  - Credyd Pensiwn, neu
  - Credyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol, neu
  - Credyd Treth Plant ar raddfa sy'n uwch na'r elfen deuluol. O Ebrill 2009 i Ebrill 2010 mae hyn yn golygu cyfradd o £548 neu fwy y flwyddyn, neu £1095 neu fwy y flwyddyn os oes gennych faban dan flwydd oed. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer blwyddyn gyfan a byddant yn llai ar gyfer rhan o flwyddyn. Bydd eich hysbysiad dyfarnu credydau treth yn cynnwys esboniad o'ch dyfarniad. Os bydd cyfanswm eich Credyd Treth Plant yn fwy na'r symiau a ddangosir fel elfennau'r teulu, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn.

  Noder, seiliwyd eich dyfarniad credyd treth ar eich incwm yn y flwyddyn flaenorol. Os bydd eich incwm yn gostwng, gallwch ofyn i'ch dyfarniad credyd treth gael ei adolygu.

ac

- **mae angen help arnoch gyda phrynu pethau i faban**
  - sydd newydd gael ei eni, neu
  - y disgwylir iddo gael ei eni yn yr 11 wythnos nesaf, neu
  - rydych newydd ei fabwysiadu, neu
  - sy'n destun gorchymyn preswyl, neu
  - sy'n destun gorchymyn rhiant o dan adran 30 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990.

Mae *partner* yn golygu
- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

### Ond mae'n rhaid

- eich bod yn fam i'r baban neu'n fam feichiog y baban ac mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn, **neu**
- eich bod yn bartner i'r fam neu'r fam feichiog, **neu**
- eich bod wedi mabwysiadu'r baban, **neu**
- rhoddwyd gorchymyn preswyl ar gyfer y baban, mewn rhai amgylchiadau, **neu**
- eich bod yn cael budd-dal ar gyfer y fam neu'r fam feichiog os yw hi o dan 20 oed, **neu**
- rhoddwyd gorchymyn rhiant i chi a'ch gŵr neu'ch gwraig o dan adran 30 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990.

## Pryd i wneud cais

- **Mae'n rhaid i chi wneud cais yn y cyfnod o 11 wythnos cyn yr wythnos disgwylir i'r baban gael ei eni hyd at 3 mis wedi i'r baban gael ei eni.**
- **Os ydych yn disgwyl am benderfyniad ar fudd-dal neu hawliad cymwysiedig, neu os ydych wedi gofyn i'ch dyfarniad Credyd Treth Plant cael ei adolygu, rhaid i chi ddal wneud cais o fewn y terfyn amser.**
- **Os ydych yn mabwysiadu baban**
  Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis i'r dyddiad y gorchymyn mabwysiadu. Ni ddylai'r baban fod yn fwy na blwydd oed pan fyddwch yn gwneud y cais.
- **Os rhoddwyd gorchymyn preswyl i chi ar gyfer baban**
  Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis i'r dyddiad y rhoddwyd y gorchymyn i chi. Ni ddylai'r baban fod yn fwy na blwydd oed pan fyddwch yn gwneud y cais.
- **Os rhoddwyd gorchymyn rhiant i chi o dan adran 30 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990**

  Mae'n rhaid i chi wneud cais hyd at 3 mis ar ôl yr amser y rhoddwyd y gorchymyn i chi.

**Canllaw cyffredinol yn unig yw'r nodiadau hyn ac ni ddylid ei drin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.**

## Y Rhaglen Cychwyn Cadarn

Mewn rhai ardaloedd o'r wlad mae Rhaglenni Cychwyn Cadarn lleol yn cynnig cymorth i rieni plant dan bedair oed. Mae'r rhain yn dwyn ynghyd ystod o wasanaethau gan gynnwys iechyd, dysgu trwy chwarae a chymorth teuluol.

Mae'r Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn yn wahanol oherwydd fe'i telir yn uniongyrchol i rieni sy'n gymwys, ble bynnag y bônt yn byw ym Mhrydain.

## Help a chyngor

Os hoffech gael mwy o wybodaeth

- cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn adran rhifau ffôn busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw **www.dwp.gov.uk/welsh neu**
- cysylltwch â chanolfan gynghori fel Cyngor ar Bopeth.

## Ein safonau gwasanaeth

Yn y Ganolfan Byd Gwaith ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Gallwch gael mynediad i'n gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

## Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni ac i wella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â'n gwefan **www.dwp.gov.uk/welsh/privacy.asp** neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

**Datgysylltwch y dudalen hon a'i chadw er gwybodaeth ▶**

# *Rhan 1* Amdanoch chi a'ch partner

- Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn o'r Gronfa Gymdeithasol. Cwblhewch y ffurflen hon mewn inc a llofnodwch a dyddiwch unrhyw newidiadau a wnewch.

  **Cofiwch ddarllen y nodiadau cyn llenwi'r ffurflen hon.**
- Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun a'ch *partner* os oes gennych un. Mae partner yn golygu
  - person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
  - bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.
- Llenwch y ffurflen yn llawn trwy ateb pob cwestiwn a chais am wybodaeth. Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth y mae angen arnom.
- Cofiwch, mae'n rhaid i chi wneud cais yn y cyfnod o 11 wythnos cyn yr wythnos disgwylir i'r baban gael ei eni hyd at 3 mis wedi i'r baban gael ei eni
  - os ydych yn disgwyl am benderfyniad ar fudd-dal neu hawliad cymwysiedig, neu os ydych wedi gofyn i'ch dyfarniad Credyd Treth Plant cael ei adolygu, mae'n rhaid i chi ddal i wneud cais o fewn y terfyn amser
  - os ydych wedi mabwysiadu'r baban, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis o fabwysiadu
  - os rhoddwyd gorchymyn preswyl i chi ar gyfer baban, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis i'r dyddiad y rhoddwyd y gorchymyn i chi
  - os rhoddwyd gorchymyn rhiant i chi o dan adran 30 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis o'r amser y rhoddwyd y gorchymyn i chi.

## Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn o'r Gronfa Gymdeithasol

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| **Cyfenw neu enw teuluol** | Mr / Mrs / Miss / Ms | Mr / Mrs / Miss / Ms |
| **Pob enw arall** yn llawn | | |
| **Dyddiad geni** | / / | / / |
| **Eich cyfeiriad** Rhowch eich cyfeiriad chi. Dywedwch wrthym gyfeiriad eich partner, os yw'n wahanol. | Cod Post | Cod Post |
| **Rhif Yswiriant Gwladol (YG)** | Llythrennau Rhifau Llythren | Llythrennau Rhifau Llythren |
| | Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog. | Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog. |

## *Rhan 1* Amdanoch chi a'ch partner parhad

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| **Os na wyddoch eich rhif YG, a fu un gennych neu a ydych wedi defnyddio un erioed?** | **Na** ☐ **Do** ☐ | **Na** ☐ **Do** ☐ |
| **Unrhyw gyfenwau neu enwau teuluol eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt neu a ddefnyddir gennych nawr.** Dylech gynnwys eich enw cyn priodi, pob enw priodasol neu bartneriaeth sifil blaenorol a phob newid i'r enw teuluol. | | |
| **Rhif ffôn yn ystod y dydd** | Cod Rhif | Cod Rhif |
| **Beth yw'r rhif hwn?** Ticiwch | Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐ | Cartref ☐ gwaith ☐ symodol ☐ ffacs ☐ |

## *Rhan 2* Ynglŷn â budd-daliadau a hawliadau

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| **Ydych chi neu'ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn disgwyl clywed ynglŷn â chais am Gymhorthdal Incwm?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn disgwyl clywed ynglŷn â chais am Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn disgwyl clywed ynglŷn â chais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn cael Credyd Pensiwn?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |

# *Rhan 2* Ynglŷn â budd-daliadau a hawliadau parhad

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| **Ydych chi neu'ch partner yn disgwyl clywed ynglŷn â chais am Gredyd Pensiwn?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn cael Credyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn disgwyl clywed ynglŷn â chais am Gredyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn cael Credyd Treth Plant ar raddfa uwch na'r elfen deuluol?** O Ebrill 2009 i Ebrill 2010 mae hyn yn golygu cyfradd o £548 neu fwy y flwyddyn, neu £1095 neu fwy y flwyddyn os oes gennych faban dan flwydd oed. | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn disgwyl clywed ynglŷn â chais am Gredyd Treth Plant ar raddfa uwch na'r elfen deuluol?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |
| **Ydych chi neu'ch partner yn disgwyl clywed am adolygiad o'ch dyfarniad Credyd Treth Plant?** | **Na** ☐ **Ydw** ☐ | **Na** ☐ **Ydy** ☐ |

**Ydych chi'n cael budd-dal ar ran mam y baban, neu fam feichiog, oherwydd ei bod o dan 20 oed?**

**Na** ☐
**Ydw** ☐ Nodwch ei henw

Mrs / Miss / Ms

**Ydych chi neu'ch partner yn cymryd rhan mewn anghydfod masnachol?**
Mae anghydfod masnachol yn golygu streic, cerdded allan, cloi allan neu unrhyw anghydfod arall yn y gwaith.

**Na** ☐
**Ydym** ☐ Am faint y buoch chi neu'ch partner yn peidio â gweithio oherwydd anghydfod masnachol?
Os yw hyn yn llai na 6 wythnos, efallai na allwn wneud taliad.

/ /

# *Rhan 3* Os disgwylir baban

**Dywedwch wrthym y dyddiad y disgwylir y baban**

/ /

Er mwyn i ni allu ystyried eich cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, **mae angen i weithiwr proffesiynol ym maes iechyd lenwi'r dystysgrif (tystysgrif GMCC) sydd ar dudalen gefn y ffurflen gais hon.** Er enghraifft, eich bydwraig.

**Ydych chi'n disgwyl mwy nag un baban?**

**Na** ☐

**Ydw** ☐ Sawl baban a ddisgwylir?

Gwnewch yn siwr fod y ddogfen rydych yn ei hanfon gyda'r ffurflen gais hon yn dweud wrthym sawl baban a ddisgwylir.

## At ddefnydd swyddogol

Derbyniwyd tystysgrif GMCC **Na** ☐ **Do** ☐

Dogfennau cymeradwy eraill **Na** ☐ **Do** ☐

Blaenlythrennau.......................

Dyddiad ......... / .......... / ..........

# *Rhan 4* Os yw'r baban wedi ei eni yn barod

**Dywedwch y dyddiad y ganwyd y baban**

/ /

Er mwyn i ni allu ystyried eich cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, **mae angen i weithiwr proffesiynol ym maes iechyd lenwi'r dystysgrif (tystysgrif GMCC) sydd ar dudalen gefn y ffurflen gais hon.** Er enghraifft, eich bydwraig.

Yn achos genedigaeth farw, nid oes angen i chi anfon y dystysgrif (tystysgrif GMCC), ond er mwyn i ni allu ystyried eich cais, mae'n rhaid i chi roi dystiolaeth o'r enedigaeth i ni.

**A aned mwy nag un baban?**

**Na** ☐

**Do** ☐ Sawl baban a aned?

**Ydych chi, neu'ch partner, wedi mabwysiadu'r baban neu fabanod?**

**Na** ☐

**Ydym** ☐ Ar ba ddyddiad oedd y mabwysiadu?

/ /

Anfonwch y papurau mabwysiadu gyda'r ffurflen gais hon.

**A roddwyd gorchymyn preswyl i chi neu'ch partner ar gyfer y baban neu fabanod?**

**Na** ☐

**Do** ☐ Ar ba ddyddiad y rhoddwyd y gorchymyn preswyl i chi?

/ /

Anfonwch y gorchymyn gyda'r ffurflen gais hon.

**A roddwyd gorchymyn rhiant i chi a'ch gŵr neu'ch gwraig o dan adran 30 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990?**

**Na** ☐

**Do** ☐ Ar ba ddyddiad y rhoddwyd y gorchymyn i chi?

/ /

Anfonwch y gorchymyn gyda'r ffurflen gais hon.

## At ddefnydd swyddogol

Derbyniwyd tystysgrif GMCC **Na** ☐ **Do** ☐

Dogfennau cymeradwy eraill **Na** ☐ **Do** ☐

Blaenlythrennau......................

Dyddiad ......... / .......... / ...........

# *Rhan 5* Gwybodaeth gyffredinol

**A dalwyd Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn o'r Gronfa Gymdeithasol naill ai i chi neu i rywun arall ar ran y baban neu'r babanod hyn eisoes?**

**Na** ☐

**Do** ☐ I bwy gafodd ei dalu?

Gallwn dalu Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn arall dim ond

- os ydych yn mabwysiadu'r baban, neu
- rhoddwyd gorchymyn preswyl ar gyfer y baban, mewn rhai amgylchiadau, neu
- os rhoddwyd gorchymyn rhiant i chi a'ch gŵr neu'ch gwraig o dan adran 30 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990.

**Ydych chi neu'ch partner eisoes yn cael Budd-dal Plant?**

**Na** ☐

**Ydym** ☐

Os hoffech wneud cais am Fudd-dal Plant, mae ffurflenni cais ar gael yn uniongyrchol gan Gyllid a Thollau EM.
Ffoniwch **0845 302 1489** neu ymwelwch â **www.hmrc.gov.uk**

# *Rhan 6* Sut rydym yn eich talu

**Fel arfer byddwn yn talu eich arian i mewn i gyfrif**
Bydd nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn eich caniatáu i gasglu eich arian mewn swyddfeydd post. Byddwn yn dweud wrthych pryd y caiff eich taliad o'r Gronfa Gymdeithasol ei wneud a faint ydyw.

**Cael gwybod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif**
Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni cyfrif. Efallai bydd y cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi eu gwneud. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

**Os byddwn yn talu gormod o arian i chi**
Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a dalwyd nad oes gennych hawl i'w gael. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system ar gyfer taliadau yn gweithredu. Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni, sy'n golygu bod hawl gennych i gael llai o arian. Weithiau ni allwn newid y swm rydym wedi'i dalu i chi eisoes. Golyga hyn y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl i'w gael.

**Byddwn yn cysylltu â chi cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.**

**Beth i'w wneud nawr**

- Dywedwch wrthym am y cyfrif yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf. Drwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych
  – yn cytuno y byddwn yn talu i mewn i'ch cyfrif, ac
  – yn deall yr hyn rydym wedi ei ddweud wrthych uchod yn yr adran **Os byddwn yn talu gormod o arian i chi**.
- Os ydych yn bwriadu agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted â'u bod gennych.
- Os nad oes gennych gyfrif, ac nid ydych yn bwriadu agor un, ticiwch y blwch, a byddwn yn cysylltu â chi. ☐

**Cwblhewch gweddill y ffurflen hon. Nid oes rhaid i chi aros nes eich bod wedi agor cyfrif neu gysylltu â ni.**

## Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio

**Rhowch fanylion eich cyfrif isod. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi POB blwch yn gywir gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni gallai eich taliad gael ei oedi neu gallwch golli arian.** Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu'ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siwr am y manylion, gofynnwch i'r banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall.

**Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio**
**Gallwch ddefnyddio**

- cyfrif yn eich enw chi
- cyfrif ar y cyd, neu
- cyfrif rhywun arall,
  - yn dibynnu ar dermau ac amodau'r cyfrif, a
  - cyn belled y bod gennych ganiatâd y person arall ac yn eu hawdurdodi hwy i ddefnyddio'r arian yn y ffordd rydych yn ei ddweud wrthynt.
- Os ydych yn Benodai neu gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.
- I gael eich talu i mewn i gyfrif undeb credyd mae'n rhaid i chi ddarparu manylion cyfrif yr undeb credyd. Gall eich undeb credyd eich helpu gyda hyn.

---

**Enw deiliad y cyfrif**
Ysgrifennwch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae i'w weld ar y llyfr siec neu gyfriflen.

**Enw llawn y banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall**

**Cod didoli**
Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft: 12-34-56.

☐☐ – ☐☐ – ☐☐

**Rhif y cyfrif**
Mae'r mwyafrif o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau i mewn o'r chwith.

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

---

**Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rôl neu gyfeirnod. Gall gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 llythyren neu rif o hyd. Os ydych yn ansicr p'un a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.**

**Rhif rôl neu gyfeirnod cymdeithas adeiladu**

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

---

Efallai eich bod yn cael budd-daliadau a hawliadau eraill na chânt eu talu'n syth i mewn i gyfrif. Ticiwch y blwch er mwyn iddynt gael eu talu i mewn i'r cyfrif uchod. ☐

# *Rhan 7* Gwybodaeth arall

## Manylion swyddfa'r post

**Darparwch fanylion eich swyddfa'r post leol**

| |
|---|
| |
| |
| |
| Cod Post |

**Defnyddiwch y gofod yma i nodi unrhyw beth arall y teimlwch y gallai fod angen i ni ei wybod.**
Gallwch ddefnyddio'r blwch hwn os oes unrhyw beth arall yr ydych yn meddwl y dylem ei wybod. Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Gwnewch yn siwr eich bod yn rhoi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) arno.

# *Rhan 8* I bobl sy'n llenwi'r ffurflen hon a'i llofnodi ar ran rhywun arall

**Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall?**

**Na** ☐ Ewch i **Ran 9**.

**Ydw** ☐ Dywedwch wrthym amdanoch eich hun

**Dywedwch wrthym pam rydych yn llenwi ac yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall.**

Rwy'n anfon llythyr y mae'r cwsmer wedi'i lofnodi gyda'r ffurflen hon. Mae'r llythyr yn dweud wrthych eu bod yn cytuno i mi wneud y cais ar eu rhan. ☐ Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 9**.

Fi yw eu penodai ☐

Mae gennyf bŵer atwrnai. ☐

Enw llawn: Mr / Mrs / Miss / Ms

Dyddiad geni: / /

Cyfeiriad:

Cod Post

Rhif ffôn: Cod Rhif

Beth yw'r rhif hwn?
Ticiwch

Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐

Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 9**.

# *Rhan 9* Datganiad

**Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

**Rwyf yn deall** yr gellir dwyn achos neu gamau eraill yn fy erbyn os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol.

**Rwyf yn deall** bod yn rhaid i mi hysbysu'r swyddfa sy'n talu fy mudd-dal ar unwaith am unrhyw beth a allai effeithio ar fy hawl i neu'r swm o unrhyw ddyfarniad.

**Dyma fy nghais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn.**

**Llofnod**

**Dyddiad** / /

Nawr ewch i **Ran 10**.

## *Rhan 10* Beth i'w wneud yn awr

- Edrychwch drwy'r ffurflen hon a gwnewch yn siwr eich bod wedi ateb pob cwestiwn ac wedi rhoi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen.
- Gwnewch yn siwr eich bod wedi llofnodi'r ffurflen hon.
- Gwnewch yn siwr bod eich bydwraig neu weithiwr proffesiynol ym maes iechyd wedi llenwi'r datganiad gan weithiwr proffesiynol ym maes iechyd.
- Sicrhewch eich bod yn anfon yr holl ddogfennau y gofynnom amdanynt atom. Anfonwch y rhai gwreiddiol gan na allwn dderbyn ffotogopïau. Ond peidiwch ag oedi cyn anfon y ffurflen hon atom.
- Anfonwch neu ewch â'r ffurflen hon i'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**.
- **Mae'n rhaid i chi anfom y ffurflen gais hon atom yn y cyfnod o 11 wythnos cyn yr wythnos disgwylir i'r baban gael ei eni.**

  **Ond cofiwch, mae'n rhaid i chi wneud cais cyn i'r baban fod yn 3 mis oed.**

  Os ydych yn mabwysiadu'r baban neu os rhoddwyd gorchymyn preswyl i chi, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis ar ôl dyddiad y mabwysiadu neu orchymyn preswyl. Ond ni ddylai'r baban fod yn fwy na un mlwydd oed pan fyddwch yn gwneud cais.

  Os oes gennych orchymyn rhiant o dan adran 30 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis i ddyddiad y gorchymyn hwnnw.

## *Rhan 11* Beth sy'n digwydd nesaf

- Byddwn yn edrych ar eich cais cyn gynted ag y gallwn. Os byddwn yn gallu talu Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn i chi, byddwn yn anfon taliad i'r cyfrif o'ch dewis. Os na fyddwn yn gallu talu Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn i chi, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud y rheswm.

# Datganiad gan weithiwr proffesiynol ym maes iechyd

**MMCC (tystysgrif)**

## I'w gwblhau gan y gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd yn unig

**Tystiaf fod** ........................................................................ (rhowch enw'r rhiant)

- **wedi ymgynghori â mi ynghylch** .................... (rhowch eiriau a rhifau e.e un – 1) **plentyn neu blant a ddisgwylir**

  Ticiwch a chwblhewch fel y bo'n briodol.

  ☐ a ddisgwylir yn yr wythnos sy'n cynnwys / / (gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn unig)

  ☐ a aned ar / / ,

- **wedi derbyn cyngor, fel y bo'n briodol, ar agweddau ar**

  Ticiwch y blwch neu flychau priodol a dilëwch unrhyw rai nad ydynt yn berthnasol.

  ☐ iechyd y fam ac iechyd a lles y plentyn – cyn-gyfnod esgor

  ☐ iechyd a lles y plentyn newydd – cyfnod ar ôl esgor

---

Dyddiad yr ymgynghoriad

/ /

Dyddiad llofnodi

/ /

Llofnod y gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd

Enw'r gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd (llythrennau bras, os gwelwch yn dda, neu defnyddiwch stamp)

Stamp dilysu neu, ar gyfer bydwraig neu ymwelydd iechyd sydd heb stamp dilysu, manylion cyfeiriad a rhif ffôn y feddygfa neu swyddfa, rhif ffôn cyswllt os yn wahanol, a PIN UKCC.

Datgysylltwch yma ▶